PAM DEWIS TGAU

# CYFRIFIADUREG?

Os cymerwch eiliad i ystyried byd heb gyfrifiaduron, byddwch yn dechrau deall pam mae datblygu eich gwybodaeth am fyd cyfrifiadura wedi dod yn ffactor llwyddiant mor hanfodol mewn bywyd modern.

## BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Bydd CBAC TGAU mewn Cyfrifiadureg yn eich helpu i wneud y gorau o bŵer cyfrifiaduron, o ddeall sut maen nhw'n gweithio, i ddefnyddio sgiliau rhaglennu i greu eich cymwysiadau a'ch atebion eich hun i broblemau yn y byd o'ch cwmpas.

Uned 1: Deall Cyfrifiadureg - Mae'r uned hon yn eich helpu i feithrin eich dealltwriaeth o agweddau ymarferol ar gyfrifiadura fel caledwedd, meddalwedd, systemau, rhwydweithiau a chyfathrebu, wrth ddatblygu eich gallu i gynllunio, rheoli a darparu datrysiadau cyfrifiadurol i anghenion a phroblemau bob dydd.

Uned 2: Rhaglennu Cyfrifiadurol – Mae'r uned hon yn rhoi cyfle i chi ddatblygu eich sgiliau rhaglennu, cyn eu defnyddio i greu datrysiad i broblem byd go iawn.

## SUT BYDDAF YN CAEL FY ASESU?

Uned 1: Deall Cyfrifiadureg
Asesiad drwy arholiad ar-sgrin
Hyd: 1 awr 30 munud - 50% o'r cymhwyster - 80 marc

Uned 2: Rhaglennu Cyfrifiadurol
Asesir drwy arholiad ar-sgrin sy'n seiliedig ar friff wedi'i ryddhau ymlaen llaw
Hyd: 2 awr - 50% o'r cymhwyster - 80 marc

**DYSGWCH FWY - SIARADWCH Â'CH ATHRO HEDDIW!**

## PA SGILIAU FYDDAF YN EU DATBLYGU?

Bydd TGAU Cyfrifiadureg yn eich helpu i:

- Ddeall a chymhwyso egwyddorion a chysyniadau cyfrifiadureg
- Datblygu eich sgiliau rhaglennu ymarferol
- Datblygu sgiliau ym maes meddwl cyfrifiannol
- Dadansoddi problemau er mwyn datblygu a gweithredu strategaethau i'w datrys
- Datblygu eich sgiliau rheoli projectau
- Gwella eich sgiliau meddwl rhesymegol a mathemategol
- Gwella eich sgiliau cydweithio a gweithio mewn tîm
- Deall elfennau cymdeithasol, proffesiynol, moesegol, amgylcheddol a chyfreithiol systemau cyfrifiadurol

## GYRFAOEDD MEWN CYFRIFIADUREG

Mae cyfrifiaduron ym mhob man – Er bod ystod enfawr o gyfleoedd ym myd cyfrifiaduron a rhaglennu ei hun, mae'r un mor wir bod cyfrifiaduron yn trawsnewid bron pob agwedd ar fywyd fel rydyn ni'n ei adnabod. Felly, os byddwch yn dewis arbenigo mewn cyfrifiadura, neu ddefnyddio eich gwybodaeth gyfrifiadura i wella eich perfformiad mewn meysydd eraill, ni fydd dewis gwella eich sgiliau cyfrifiadurol byth yn benderfyniad gwael.

Enghreifftiau o yrfaoedd Cyfrifiadura

- Datblygu gwefannau
- Deallusrwydd artiffisial a datblygiad modelau iaith mawr (*LLMs*)
- Rheoli projectau
- Llwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol a Marchnata
- Cynllunio a dadansoddi systemau
- Gemau a systemau rhyngweithiol
- Systemau ariannol a diogelwch
- Roboteg a'r Rhyngrwyd Pethau

